Senedd Cymru
**Pwyllgor Senedd y Dyfodol**

# Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd

Mai 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDyfodol**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Senedd y Dyfodol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDyfodol@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Senedd y Dyfodol**

# Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd

Mai 2025

Un o dasgau cyntaf y Seithfed Senedd fydd ystyried sut i drefnu ei fusnes seneddol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi arfarniad o gryfderau a gwendidau tri dull posibl y gallai'r Seithfed Senedd eu hystyried, ac y gallai'r rhai sy'n paratoi ar gyfer y Seithfed Senedd eu defnyddio wrth gynllunio.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar strwythurau ffurfiol ar gyfer trefnu busnes seneddol, nododd Pwyllgor Senedd y Dyfodol hefyd fod angen rhoi sylw i ddiwylliant seneddol y Seithfed Senedd.

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Hydref 2024. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDyfodol**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**David Rees AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Julie James AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Darren Millar AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **6**

**1. Cyflwyniad** ..... **8**

Y cefndir ..... 8

Ein dull ni ..... 8

Mewnbynnau i'n gwaith ..... 9

**2. Opsiynau ar gyfer trefnu busnes** ..... **11**

Cyflwyniad ..... 11

Sut mae'r opsiynau wedi'u gosod ..... 11

Sut y gwnaethom asesu'r opsiynau ..... 12

Opsiwn 1: "Status Quo" ..... 12

Cyflwyniad ..... 12

Graffig amserlen ..... 13

Cryfderau a gwendidau ..... 13

Opsiwn 2: Cyfarfod Llawn ychwanegol bob wythnos ..... 14

Cyflwyniad ..... 14

Graffig amserlen ..... 14

Cryfderau a gwendidau ..... 15

Opsiwn 3: Aml-wythnos ..... 16

Cyflwyniad ..... 16

Graffig amserlen ..... 17

Cryfderau a gwendidau ..... 18

Casgliadau pellach o'n hasesiad o'r opsiynau ..... 19

**3. Materion yn ymwneud â threfn busnes** ..... **22**

Diwylliant seneddol ..... 22

Y Cyfarfod Llawn ... 23

Fformat cwestiynau llafar, a datganiadau llafar ... 23

Amserlennu busnes y Llywodraeth ... 24

Pwyllgorau ... 25

Cyflwyniad ... 25

Amser ar gyfer gwaith pwyllgorau ... 26

Cyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau yn cyfarfod ar yr un pryd ... 27

Deall effeithiolrwydd pwyllgorau ... 28

**4. Atebion i rwystrau ... 34**

Cyflwyniad ... 34

Rhwystrau cymdeithasol ... 34

Pleidiau gwleidyddol ... 35

Cefnogi Aelodau Newydd ... 35

Rhagweladwyedd y diwrnod busnes ... 36

Crèche ... 37

Cymryd rhan mewn trafodion o bell ... 37

**Atodiad 1 Ffynonellau dethol ... 38**

Trefn Busnes ... 38

Datrysiadau i rwystrau i gynrychiolaeth ... 38

Cymariaethau rhyngwladol ... 39

# Rhagair y Cadeirydd

Er bod trefn ffurfiol busnes seneddol yn bwysig, y ffordd y mae Aelodau'n gwneud busnes seneddol o fewn ac o amgylch strwythurau ffurfiol yw'r ystyriaeth bwysicaf wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, yn enwedig o ystyried maint y newid a ragwelir mewn aelodaeth.

Efallai bod y frawddeg uchod yn ymddangos yn un rhyfedd i ddechrau adroddiad ar drefn busnes seneddol, ond mae'n mynd at wraidd y trafodaethau y mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol wedi bod yn cymryd rhan ynddynt.

Dyma ein neges: wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, mae angen rhoi sylw i strwythur ffurfiol busnes, ond mae angen rhoi mwy o sylw i'r ffordd y mae Aelodau'n cyflawni eu rolau seneddol.

Pam? Oherwydd mae'n rhaid inni sicrhau:

- nad yw'r normau ymddygiad cadarnhaol sydd wedi datblygu yn ein senedd yn cael eu colli wrth drosglwyddo i Senedd newydd a mwy; a
- bod y cyfle unigryw i osod amgylchedd lle mae rhagoriaeth seneddol a yrrir gan gymheiriaid yn cael ei feithrin, nid ei golli.

Rydym eisiau Seithfed Senedd sy'n cynrychioli holl bobl Cymru.

Wrth drefnu busnes seneddol yn y Seithfed Senedd, dylid gwneud pob ymdrech i wneud amseroedd gorffen a'r patrwm busnes mor rhagweladwy â phosibl, gan fod yr ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd ynghylch amseroedd gorffen y Cyfarfod Llawn yn benodol yn creu rhwystr i rai Aelodau, neu ddarpar Aelodau, oherwydd ei effaith ar eu gallu i gyflawni cyfrifoldebau gofalu, neu gyfrifoldebau eraill.

Credwn fod hyn yn gyraeddadwy gydag ychydig o greadigrwydd, a gallai'r buddion fod yn sylweddol.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried yr egwyddorion yr ydym wedi cytuno arnynt, o ran penderfynu ar drefn busnes seneddol. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 2.** Er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r Seithfed Senedd drefnu busnes yn y ffordd y mae'n penderfynu sydd orau, rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid dileu Rheol Sefydlog 12.6 (i) (sy'n ymwneud â phryd y dylid cynnal Cyfarfodydd Llawn fel arfer), cyn diwedd y Chweched Senedd. ........ Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn adolygu cydbwysedd yr amser a ddyrennir i lefarwyr ac Aelodau'r meinciau cefn, a'r achos dros osod cyfyngiad amser ar ymatebion i gwestiynau a datganiadau, gyda'r bwriad o sicrhau bod Aelodau'r meinciau cefn yn y Seithfed Senedd yn cael cyfle teg i gyfrannu yn ystod Cyfarfodydd Llawn. ........ Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried sut y gallai sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl i bwyllgorau, o ran amserlennu cyfarfodydd. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd, yn ystyried y ffordd orau o sefydlu trefniadau i ddeall yr effaith y mae'r cynnydd ym maint y Senedd yn ei chael ar yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio'n paratoi ar gyfer gwaith pwyllgor, ac a yw hyn yn arwain at ganlyniadau craffu gwell. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes, yn ailedrych ar argymhelliad 1.1 yn adroddiad yr Athro Stirbu i benderfynu a fyddai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn elwa o waith i:

- archwilio a oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth mewn canlyniadau a gyflawnir gan system bwyllgorau sy'n defnyddio pwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol yn bennaf (e.e. Senedd yr Alban, y Senedd, a rhai deddfwrfeydd Ewropeaidd) o gymharu â system sy'n defnyddio pwyllgorau craffu ar bolisi a phwyllgorau Bil cyhoeddus ad hoc ar wahân (e.e. Tŷ'r Cyffredin, deddfwrfeydd y Gymanwlad); a/neu

- archwilio a oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth mewn canlyniadau o system bwyllgorau sy'n gysylltiedig â threfniadaeth y llywodraeth o gyfrifoldebau Gweinidogol (e.e. Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin), o'i gymharu â system bwyllgorau nad yw (e.e. y Senedd). .................. Tudalen 32

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd, yn ystyried comisiynu gwaith i gofnodi a chyfleu diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd, gyda'r bwriad o nodi'r normau ac arferion anffurfiol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan Aelodau, a'r rhai nad ydynt, er mwyn cynorthwyo i gadw normau ac arferion cadarnhaol rhwng Seneddau, a llywio prosesau cynefino.................................... Tudalen 33

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd, wrth gynllunio ei raglen gynefino ar gyfer Aelodau newydd, yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i drefn y wybodaeth a ddarperir, fel bod materion fel sefydlu swyddfa a deall y Cyfarfod Llawn yn cael eu blaenoriaethu. ......................................................... Tudalen 36

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn gwneud trefniadau, cyn dechrau'r Seithfed Senedd, i roi dewis arall i Aelodau yn lle talu costau ymlaen llaw treuliau sylweddol o'u harian personol................................ Tudalen 36

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y Seithfed Senedd, wrth gynllunio'r amserlen fusnes, yn sicrhau bod amseroedd cychwyn a gorffen diwrnodau busnes mor rhagweladwy â phosibl, gan fod angen y sicrwydd hwn fel bod modd i'r Aelodau rhagbaratoi trefniadau gofal, trefniadau a fydd yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar amgylchiadau pob Aelod a pha mor agos yw eu prif gyfeiriad i'r Senedd.................................................................................................................................................. Tudalen 36

**Argymhelliad 11.** Wrth ystyried Argymhelliad 1, rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid diwygio Rheol Sefydlog 11.10 (sy'n ymwneud â'r amseroedd y dylid amserlennu busnes fel arfer ynddynt) cyn diwedd y Chweched Senedd.................................................................................................................................................. Tudalen 37

**Argymhelliad 12.** Dylid adolygu'r canllawiau ar gyfranogiad o bell o bryd i'w gilydd i sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cyfranogiad yn y cnawd a chyfranogiad o bell ar draws y Senedd.................................................................................. Tudalen 37

# 1. Cyflwyniad

Sefydlwyd Pwyllgor Senedd y Dyfodol fel grŵp gorchwyl a gorffen, gydag ychydig dros chwe mis i gwblhau ei waith.

## Y cefndir

**1.** Sefydlwyd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ("y Pwyllgor") ar 16 Hydref 2024, gyda chylch gorchwyl i ystyried a chyflwyno adroddiad erbyn 9 Mai 2025 ar:

a. drefn busnes yn y Seithfed Senedd, gyda'r nod o ganfod opsiynau sy'n cynyddu effeithiolrwydd ei gwaith craffu, effeithiolrwydd y modd y mae'n darparu busnes o ddydd i ddydd, a hygyrchedd busnes seneddol i'r Aelodau;

b. atebion i rwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) a all amharu ar allu'r Senedd i gynrychioli pobl o bob cefndir, profiad bywyd, dewis a chred, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, gan gynnwys ystyried fersiynau drafft a therfynol y canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol;

c. trothwyon a osodir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi, a chworwm.

**2.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y drydedd agwedd ar ein cylch gorchwyl ar 28 Chwefror 2025. Mae'r ail adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dau bwynt cyntaf ein cylch gorchwyl.

## Ein dull ni

**3.** Gosodwyd cylch gorchwyl heriol i ni gan y Senedd, gydag ond amser cyfyngedig ar gyfer cyflwyno adroddiad. Gan ganiatáu cyfnodau toriad a chyfyngiadau ymarferol, rydym wedi cael tua 15 wythnos i gwblhau ein gwaith.

**4.** Er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyn y gallem ei gyflawni yn ystod yr amser sydd ar gael, fe wnaethom osod yr amcanion canlynol i'n hunain:

- cefnogi'r Chweched Senedd yn ei waith cynllunio ar gyfer y Seithfed Senedd, a darparu sail ar gyfer cyngor i'r Seithfed Senedd ar sut i drefnu ei busnes, drwy ddarparu opsiynau lefel uchel wedi'u harfarnu ar gyfer trefnu busnes seneddol y Senedd; a
- sicrhau bod yr opsiynau a ddatblygir mewn ymateb i bwynt (a) o'r cylch gorchwyl [y Pwyllgor] cael eu datblygu mewn ffordd sydd, lle bo'n bosibl, yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal Aelodau o bob cefndir rhag cymryd rhan lawn ym musnes seneddol y Senedd.

## Mewnbynnau i'n gwaith

**5.** Gwnaethom wahodd holl Aelodau presennol a chyn-Aelodau o'r Senedd i gyfrannu at ein gwaith, a gwnaethom hefyd estyn y gwahoddiad hwn i Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru.

**6.** Er mai nifer cyfyngedig o ymatebion unigol a ddaeth i law, rydym ni, aelodau'r Pwyllgor, wedi cynrychioli barn ein grwpiau gwleidyddol neu Lywodraeth Cymru yn achos y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni yn ein hystyriaethau. O ganlyniad, mae ein gwaith yn seiliedig ar farn llawer mwy o Aelodau o'r Senedd na'r rhai a ymatebodd yn unigol i'n galwad am gyflwyniadau ysgrifenedig.

**7.** Ar 12 Rhagfyr 2024, gwnaethom gynnal trafodaeth bord gron gyda thri o gyn-Aelodau o'r Senedd i drafod y rhwystrau a brofwyd ganddynt i ddod yn Aelod o'r Senedd, a chyflawni eu rôl fel Aelod o'r Senedd. Roedd hon, ar adegau, yn sesiwn galed, a rhannwyd rhai profiadau personol iawn â ni.

**8.** Er mwyn cadw'r cyfrinachedd a oedd wedi galluogi rhannu profiadau mor onest, nid ydym yn darparu sylwebaeth fanwl nac yn cyfeirio'n uniongyrchol at unrhyw beth a ddywedwyd yn y cyfarfod hwnnw yn yr adroddiad hwn.

**9.** Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y cyn-Aelodau hyn yn fawr ac mae eu cyfraniadau wedi dylanwadu ar y gwaith hwn (gweler adran 4 isod), yn ogystal â'n rolau seneddol ehangach wrth i ni baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, a thrafodaethau rydyn ni wedi'u cael o fewn ein pleidiau gwleidyddol ein hunain ynglŷn â mynd i'r afael â rhwystrau i ddod yn Aelod o'r Senedd.

**10.** Ochr yn ochr â'r cyfraniadau hyn, rydym wedi elwa ar arbenigedd trefnwyr a chyfreithwyr uchaf Comisiwn y Senedd, ac mae'r tîm integredig sy'n cefnogi ein gwaith wedi cynnal ymchwil sy'n cwmpasu cymaryddion rhyngwladol, a

llenyddiaeth berthnasol sy'n bodoli eisoes. Mae Atodiad 1 yn cynnwys llyfryddiaeth ddethol o ffynonellau a fu'n rhan o'n gwaith.

**11.** Ar 19 Mawrth 2025, cynhaliwyd gweithdy gennym i asesu tri opsiwn posibl ar gyfer trefn busnes y Seithfed Senedd, yn seiliedig ar ein gwaith blaenorol a threfn busnes mewn deddfwrfeydd eraill. Yn hytrach na dewis yr opsiwn a ffefrir, nod yr ymarfer hwn oedd defnyddio'r opsiynau a gyflwynwyd i nodi cryfderau a gwendidau'r dulliau gwahanol sydd wedi'u cynnwys o fewn yr opsiynau. Gwneir hyn i gyd mewn ymdrech i helpu i lywio paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd ac, yn y pen draw, y penderfyniadau y gall y Seithfed Senedd yn unig eu gwneud ynglŷn â sut i drefnu ei busnes.

**12.** Mae'r allbwn o'r ymarfer hwn yn sail i ail adran yr adroddiad hwn.

# 2. Opsiynau ar gyfer trefnu busnes

Rydym wedi asesu cryfderau a gwendidau tri opsiwn posibl ar gyfer trefnu busnes seneddol yn y Seithfed Senedd

## Cyflwyniad

**13.** Ein nod yn yr adran hon o'n hadroddiad yw cyflwyno cryfderau a gwendidau tri opsiwn posibl ar gyfer trefn busnes y Seithfed Senedd.

**14.** Mae'r rhain yn opsiynau lefel uchel, wedi'u gosod ar lefel amserlennu mathau o weithgarwch busnes seneddol h.y. y cyfarfod llawn, pwyllgorau, a grwpiau.

**15.** Nid nodi'r opsiwn a ffefrir o'r tri yw'r nod, ond yn hytrach defnyddio'r opsiynau hyn fel ysgogiadau i nodi cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau.

**16.** Ni fwriedir i'r opsiynau fod yn derfynol. Mae llawer mwy o amrywiadau yn bosibl a mater i'r Seithfed Senedd fydd penderfynu ar y ffordd orau o drefnu ei busnes.

**17.** Y tri opsiwn a aseswyd gennym yw:

- Opsiwn 1: Status quo;
- Opsiwn 2: Cyfarfod Llawn ychwanegol bob wythnos; ac
- Opsiwn 3: Aml-wythnos

### Sut mae'r opsiynau wedi'u gosod

**18.** Ar gyfer pob opsiwn, mae:

- cyflwyniad byr i'r opsiwn;
- graffig o'r amserlen; a'r
- "cryfderau a gwendidau" a nodwyd gennym.

### Sut y gwnaethom asesu'r opsiynau

**19.** Ein man cychwyn oedd ystyried yr hyn y gallai Aelodau o'r Senedd geisio ei gyflawni drwy drefnu busnes seneddol y Senedd, ac i ba raddau y gallai'r opsiynau a aseswyd gennym gyflawni amcanion o'r fath.

**20.** Mae'n heriol deall hyn oherwydd lluosogrwydd y safbwyntiau a geir o fewn senedd. Mae Aelodau'n chwarae rolau gwahanol o fewn senedd; gallant fynd o gefnogi mater etholaethol yn ystod un eitem yn y Cyfarfod Llawn, i graffu ar y llywodraeth yn yr eitem nesaf.

**21.** Gan dderbyn yr hylifedd hwn o rôl a phwrpas, mae'n bosibl cyfuno o amgylch uchelgais a rennir yr Aelodau i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru.

**22.** Mae Comisiwn y Senedd yn disgrifio diben Senedd Cymru fel a ganlyn:

- cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl;
- deddfu ar gyfer Cymru;
- cytuno ar drethi yng Nghymru; a
- dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**23.** Wrth i ni ystyried cryfderau a gwendidau pob opsiwn, aethom yn ôl at y cwestiwn o ddiben a gofyn a oedd opsiwn (neu agweddau ar opsiwn):

- yn galluogi neu gyfyngu ar graffu effeithiol;
- yn effeithio ar brosesau gwneud penderfyniadau (gan gynnwys pasio deddfwriaeth);
- yn galluogi neu gyfyngu ar allu Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr; a/neu
- yn creu neu ddileu rhwystrau rhag cymryd rhan.

## Opsiwn 1: "Status Quo"

### Cyflwyniad

**24.** Mae'r opsiwn hwn yn dyblygu'r amserlen bresennol ar gyfer busnes y Senedd.

**25.** Dyma oedd y sail ar gyfer y senario newid lleiaf posibl a ddatblygwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru.[1]

**26.** Nid yw'r model hwn yn cynnwys cyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau sy'n cyfarfod ar yr un pryd, er bod hyn yn bosibl ar hyn o bryd gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes. Mae wedi digwydd yn anaml iawn, er nad yw'n anghyffredin i bwyllgorau gael caniatâd i e.e. deithio ar gyfer ymrwymiadau allanol anffurfiol.

**27.** Mae hwn yn opsiwn amserlen wythnosol cylchol.

### Graffig amserlen

| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|
| PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | DIM BUSNES Y SENEDD |
| | GRWPIAU | | | |
| | Y CYFARFOD LLAWN | Y CYFARFOD LLAWN | | |

### Cryfderau a gwendidau

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| ▪ Patrwm busnes cyfarwydd.<br>▪ Gall y Pwyllgor Busnes gadarnhau bod y system bwyllgorau yn cwmpasu pob agwedd ar y setliad datganoli.<br>▪ Cadw dydd Gwener ar gyfer gwaith etholaeth.<br>▪ Nid oes angen newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. | ▪ Bydd Aelodau'r meinciau cefn yn cael llai o gyfleoedd i gyfrannu at y Cyfarfod Llawn o gymharu ag opsiynau eraill mewn Senedd fwy.<br>▪ Bydd hyd sesiynau'r Cyfarfod Llawn yn anrhagweladwy, a gallent orffen yn hwyrach yn y Seithfed Senedd o dan yr opsiwn hwn (gan gadw'r rhwystr i gyfranogiad ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu gyfrifoldebau eraill). |

[1] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Ebrill 2024

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| | ▪ Gall greu cyfyngiadau ar gyfer pwyllgorau sy'n cyfarfod ar fore Mercher.<br>▪ Ni fydd yn caniatáu digon o amser yn y Cyfarfod Llawn o ystyried y cynnydd mewn aelodaeth. |

## Opsiwn 2: Cyfarfod Llawn ychwanegol bob wythnos

### Cyflwyniad

**28.** Mae'r opsiwn hwn yn ychwanegu Cyfarfod Llawn ychwanegol at y status quo, gyda'r opsiwn i gyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau gael eu cynnal ar yr un pryd.

**29.** Mae cyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau sy'n cyfarfod ar yr un pryd yn cael eu dangos ar ddydd Iau yn unig at ddibenion y model hwn, ond gallai'r cryfderau a'r gwendidau a nodwyd mewn perthynas â chyfarfodydd sy'n cyfarfod ar yr un pryd fod yn berthnasol i ddiwrnodau eraill hefyd.

**30.** Cafodd Cyfarfod Llawn ychwanegol bob wythnos ei gynnwys yn y senario newid mwyaf a ddatblygwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru.[2]

**31.** Mae hwn yn opsiwn amserlen wythnosol cylchol.

### Graffig amserlen

<table>
<tr><th>Dydd Llun</th><th>Dydd Mawrth</th><th>Dydd Mercher</th><th>Dydd Iau</th><th>Dydd Gwener</th></tr>
<tr><td rowspan="3">PWYLLGORAU</td><td>PWYLLGORAU</td><td rowspan="2">PWYLLGORAU</td><td rowspan="3">CYFARFOD LLAWN A PHWYLLGORAU</td><td rowspan="3">DIM BUSNES Y SENEDD</td></tr>
<tr><td>GRWPIAU</td></tr>
<tr><td>Y CYFARFOD LLAWN</td><td>Y CYFARFOD LLAWN</td></tr>
</table>

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Ebrill 2024

**Cryfderau a gwendidau**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| ▪ Yn rhoi mwy o amser ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn y gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r gostyngiad tebygol mewn cyfleoedd i aelodau'r meinciau cefn gyfrannu, i fwy o fusnes y Llywodraeth gael ei waredu mewn wythnos, a/neu fwy o gyfleoedd ar gyfer busnes y meinciau cefn.<br>▪ Gellid ei weithredu'n hyblyg e.e. efallai na fydd angen Cyfarfod Llawn ychwanegol bob wythnos, a/neu sesiynau y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau sy'n cyfarfod ar yr un pryd.<br>▪ Byddai'n darparu rhythm rheolaidd o fusnes a fyddai'n cynorthwyo'r Aelodau a'r llywodraeth i gynllunio ac a fyddai'n haws i'r cyhoedd ei ddeall. | ▪ Gall leihau'r defnydd o ddydd Iau gan bwyllgorau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu allanol (oherwydd yr angen i gyfrannu at fusnes y Cyfarfod Llawn).<br>▪ Amharu ar waith y pwyllgorau os yw'n ofynnol i Aelodau bleidleisio neu gyfrannu yn y Siambr ar yr un pryd (gellid dadlau efallai y bydd mwy o Aelodau'n dymuno bod yn bresennol os bydd mater lleol yn cael ei drafod, oherwydd etholaethau chwe Aelod).<br>▪ Bydd yn rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod argaeledd Gweinidogion yn hyblyg (ar gyfer eitemau sesiynau pwyllgorau neu'r Cyfarfod Llawn)<br>▪ Gallai dibynnu ar baru fod yn broblem, pe bai pwyllgorau yn dymuno cyfarfod y tu hwnt i Fae Caerdydd – yn enwedig ar gyfer grwpiau llai a/neu Aelodau nad ydynt mewn grŵp.<br>▪ Gallai tri diwrnod o Gyfarfod Llawn yr wythnos, bob wythnos, greu rhwystrau pellach i gyfranogiad Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu neu eraill e.e. amseroedd gorffen anrhagweladwy, a disgwyliad i deithio i Fae Caerdydd (gallai parhau â threfniadau gweithio hybrid fynd i'r afael â hyn yn rhannol). |

## Opsiwn 3: Aml-wythnos

### Cyflwyniad

**32.** Dyma'r opsiwn mwy radical a gynigir i'w ystyried ac mae'n seiliedig ar y dull a fabwysiadwyd mewn rhai deddfwrfeydd Ewropeaidd.

**33.** Ni chafodd ei asesu yng nghyd-destun yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru.

**34.** Mae'r opsiwn a ddarperir yn enghraifft o un opsiwn aml-wythnos posibl, wedi'i gynllunio i gael wythnos Cyfarfod Llawn â ffocws, wythnos gymysg, a dwy wythnos â ffocws y pwyllgorau.

**35.** Mae amser grwpiau wedi'i ddiogelu yn y model hwn. Mae'n bosibl, gyda gwleidyddiaeth amlbleidiol o ganlyniad i system etholiadol fwy cyfrannol, y gallai grwpiau ddymuno ystyried mwy o amser ar gyfer trefnu eu hunain, a datblygu eu safbwyntiau polisi mewn perthynas â gwaith y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau.

### Wythnos 1: Wythnos y Cyfarfod Llawn

**36.** Mae hon yn wythnos sy'n canolbwyntio ar waith y Cyfarfod Llawn, gyda'r Senedd yn gallu cyfarfod am dri diwrnod yn olynol. Er nad yw'n gyfarwyddol o ran amserau cyfarfodydd, gallai fod dwy sesiwn y dydd ar ddydd Mercher a dydd Iau e.e. 10:00 - 13:00 ac yna 14:00 – 17:00 (ochr yn ochr â slot prynhawn dydd Mawrth).

**37.** Gallai pwyllgorau sydd angen cyfarfod yn ystod yr wythnos hon wneud hynny ar ddydd Llun neu yn y slot cyfarfod byr ar fore Mawrth (09:00 – 11:00), fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen i bwyllgor sy'n gyfrifol am ystyried offerynnau statudol gyfarfod yn wythnosol, er enghraifft.

**38.** Mae slot cyfarfod arferol y Grwpiau Gwleidyddol yn cael ei gadw ar fore Mawrth.

### Wythnos 2: Wythnos gymysg

**39.** Mae'r wythnos hon wedi'i neilltuo'n bennaf i waith pwyllgor, ond bydd yn cadw slot Cyfarfod Llawn brynhawn Mawrth ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog a chwestiynau Gweinidogol wythnosol, o leiaf.

**40.** Mae dydd Mercher hefyd yn cael ei neilltuo fel diwrnod wrth gefn ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn, pe bai angen, gyda'r Cyfarfod Llawn i gyfarfod ar yr un pryd â phwyllgorau ar y diwrnod hwn. Mae hyn yn dilyn wythnos 1 gan y gallai

ddarparu rhywfaint o gapasiti i gwblhau busnes a gafodd ei ohirio yn anochel am wythnos, neu helpu i ddarparu amseroedd gorffen rhagweladwy yn ystod wythnos 1.

### Wythnosau 3 a 4: Wythnosau pwyllgor

**41.** Mae'r wythnosau hyn wedi'u neilltuo i waith pwyllgorau, ond yn cadw slot Cyfarfod Llawn brynhawn dydd Mawrth. Gellid defnyddio'r slot Cyfarfod Llawn hwn ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog a chwestiynau Gweinidogol fan leiaf, ond gellid cyflawni busnes arall yn ôl yr angen.

**42.** Aseswyd cylch pedair wythnos gan fod hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau y gellid darparu o leiaf yr un faint o amser ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau dros gyfnod o bedair wythnos, o gymharu â phedair wythnos yr opsiwn status quo.

### Amrywiadau

**43.** Mae enghreifftiau o amserlennu wythnosau penodedig ar gyfer gwaith craffu ariannol yn seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys rhai o ddeddfwrfeydd gwladwriaeth Awstralia, a Senedd Seland Newydd.

**44.** Gellid neilltuo un o'r wythnosau pwyllgor o dan y model hwn o bryd i'w gilydd i dasg graffu drawsbynciol benodol e.e. craffu ar y gyllideb.

**45.** Mae enghreifftiau hefyd o ddiwrnodau neu wythnosau wrth gefn yn cael eu hymgorffori mewn amserlenni i ddarparu capasiti ychwanegol, os oes angen.

### Graffig amserlen

| Wythnos | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU<br>GRWPIAU<br>Y CYFARFOD LLAWN | Y CYFARFOD LLAWN | Y CYFARFOD LLAWN | DIM BUSNES Y SENEDD |

| Wythnos | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU<br>GRWPIAU<br>Y CYFARFOD LLAWN | CYFARFOD LLAWN (WRTH GEFN) A PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | DIM BUSNES Y SENEDD |

| Wythnos | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU<br>GRWPIAU<br>Y CYFARFOD LLAWN | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | DIM BUSNES Y SENEDD |

| Wythnos | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU<br>GRWPIAU<br>Y CYFARFOD LLAWN | PWYLLGORAU | PWYLLGORAU | DIM BUSNES Y SENEDD |

### Cryfderau a gwendidau

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| ▪ Yn darparu ffocws penodol i wahanol fathau o fusnes mewn gwahanol wythnosau, a allai alluogi mwy o baratoi ar gyfer gwahanol weithgareddau.<br>▪ Gallai canolbwyntio ar fathau o fusnes ddenu cryn dipyn o | ▪ Mae cylch pedair wythnos yn fwy cymhleth na phatrwm wythnosol, a allai wneud trefniadau gweithio ar gyfer Aelodau yn anoddach.<br>▪ O bosibl yn anoddach i randdeiliaid a'r cyhoedd ei ddilyn. |

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| sylw allanol ar y Senedd yn ystod wythnosau penodol.<br>▪ Hyblygrwydd i bwyllgorau gyfarfod ag amlder a pharhad sy'n diwallu eu hanghenion, a chynnal busnes y tu allan i ystad y Senedd yn haws.<br>▪ Yn gallu darparu mwy o amser ar gyfer y Cyfarfod Llawn dros gyfnod o bedair wythnos o gymharu â'r status quo.<br>▪ Gall gynnig cyfle i gydbwyso disgwyliadau o ran cymryd rhan yn y cnawd ac yn rhithwir.<br>▪ Gallai alluogi eitemau hirach o fusnes i gael eu cwblhau o fewn amserlen fyrrach (h.y. trwy gyfarfod fwy nag unwaith yr wythnos neu gario busnes drosodd i ail ddiwrnod ac ati yn hytrach nag aros wythnos). | ▪ Dim ond nifer cyfyngedig o bwyllgorau allai gyfarfod yn wythnos 1.<br>▪ Bydd angen amserlennu busnes yn ofalus i sicrhau nad yw wythnosau lle mae llai o fusnes Cyfarfod llawn neu bwyllgorau yn achosi oedi wrth wneud penderfyniadau.<br>▪ Gall cylch pedair wythnos fod yn broblemus oherwydd rhyng-gysylltiad â chyfnodau'r toriad (efallai y byddai cylch byrrach yn well).<br>▪ Dim digon o amser yn wythnosau 2-4 ar gyfer busnes amserol yn y Cyfarfod Llawn (gallai ail sesiwn Cyfarfod Llawn, fer, ddatrys hyn).<br>▪ Canfyddiad negyddol posibl pe bai'r Senedd yn newid patrwm Cyfarfodydd Llawn wythnosol.<br>▪ Mae'n annhebygol y bydd yn darparu cymaint o amser ar gyfer y Cyfarfod Llawn dros gyfnod o bedair wythnos o'i gymharu ag opsiwn 2. Efallai y bydd yn lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer busnes y llywodraeth a busnes anllywodraethol. |

## Casgliadau pellach o'n hasesiad o'r opsiynau

**46.** Fel y disgrifiwyd ar ddechrau'r adran hon, nid ein bwriad oedd nodi opsiwn a ffefrir o'r tri a aseswyd gennym ond yn hytrach defnyddio'r opsiynau hyn fel modd o nodi cryfderau a gwendidau gwahanol agweddau ar bob un.

**Casgliad 1.** Yn seiliedig ar ein profiad o weithredu'r model status quo, credwn y bydd angen amser ychwanegol yn y Cyfarfod Llawn mewn Senedd fwy. Oherwydd

hyn ac anfanteision eraill, mae'r opsiwn status quo i bob pwrpas yn cael ei ddiystyru fel model ar gyfer trefnu busnes yn y Seithfed Senedd.

**47.** Cawsom ein denu at y cysyniad o opsiwn aml-wythnos, ond byddai angen addasu'r opsiwn a gyflwynir i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Er enghraifft, byddai cylch byrrach (o ddwy neu dair wythnos) yn fwy addas i'r ffordd y mae cyfnodau eistedd yn disgyn, ac efallai y bydd angen mwy nag un sesiwn Cyfarfod Llawn bob wythnos (hyd yn oed pe bai'r ail sesiwn yn un fer). Teimlwyd hefyd y dylai unrhyw ddull newydd o ymdrin â busnes seneddol geisio gwireddu rhai o'r manteision posibl a nodwyd mewn perthynas ag Opsiwn 2, yn enwedig y dymuniad am fwy o amser yn y Cyfarfod Llawn yn gyffredinol mewn unrhyw gylch penodol o'i gymharu ag Opsiwn 1, er mwyn galluogi busnes y llywodraeth i fynd heibio'n effeithiol a rhoi'r cyfle i graffu'n fwy effeithiol.

**Casgliad 2.** Mae ein hystyriaeth o'r tri opsiwn wedi ein harwain at gytuno ar gyfres o egwyddorion y credwn y dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd eu hystyried wrth benderfynu ar drefn busnes seneddol.

**Egwyddorion**

- Dylai amseroedd gorffen ar gyfer cyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau fod mor rhagweladwy â phosibl.
- Rhaid i'r Cyfarfod Llawn gyfarfod bob wythnos.
- Rhaid cael digon o amser yn y Cyfarfod Llawn i gynnal gwaith craffu effeithiol, a dwyn y llywodraeth i gyfrif, er mwyn galluogi cyflawni busnes y llywodraeth yn effeithlon, ac ystyried Biliau Aelodau.
- Rhaid bod rhywfaint o hyblygrwydd wrth amserlennu gwahanol fathau o fusnes y Cyfarfod Llawn ar ddiwrnodau gwahanol.
- Rhaid rhoi digon o amser i bwyllgorau a'r hyblygrwydd i gyfarfod y tu hwnt i ystad Bae Caerdydd y Senedd.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried yr egwyddorion yr ydym wedi cytuno arnynt, o ran penderfynu ar drefn busnes seneddol.

**48.** Er enghraifft, mae Rheol Sefydlog 12.6 (i) yn nodi bod yn rhaid cynnal Cyfarfodydd Llawn ar ddydd Mawrth a dydd Mercher a dechrau am 1.30pm fel arfer.[3]

**Argymhelliad 2.** Er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r Seithfed Senedd drefnu busnes yn y ffordd y mae'n penderfynu sydd orau, rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid dileu Rheol Sefydlog 12.6 (i) (sy'n ymwneud â phryd y dylid cynnal Cyfarfodydd Llawn fel arfer), cyn diwedd y Chweched Senedd.

[3] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog, Ionawr 2025

# 3. Materion yn ymwneud â threfn busnes

Ochr yn ochr â'n hasesiad o opsiynau ar gyfer trefnu busnes seneddol, daeth amrywiaeth o faterion cysylltiedig i'r amlwg. Yn ein trafodaethau, roedd yn amlwg bod y ffordd y cynhelir busnes seneddol yr un mor bwysig â strwythurau ffurfiol ar gyfer trefnu busnes, ac mae'r Seithfed Senedd yn cyflwyno cyfle i gryfhau hyn.

## Diwylliant seneddol

**49.** Yn aml, yn ystod ein gwaith, rydym wedi mynd i'r afael â'r hyn a oedd yn ymddangos yn fater strwythurol neu weithdrefnol ynglŷn â threfn busnes ond, drwy drafod, daethom i'r casgliad bod y mater yn ymwneud mwy â sut mae Aelodau yn perfformio agwedd ar fusnes yn hytrach nag unrhyw ystyriaeth strwythurol neu weithdrefnol.

**50.** Yn gyffredinol, gwelsom yr angen i gofnodi ymddygiadau seneddol cadarnhaol sydd wedi datblygu yn y Senedd, gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a'u hymgorffori yn y cymorth a roddir i Aelodau yn y Seithfed Senedd. Nid dim ond y cymorth a roddir gan Gomisiwn y Senedd neu bleidiau gwleidyddol yw hyn, ond hefyd y cymorth gan gymheiriaid y gall Aelodau ei roi i'w gilydd mewn ffordd gilyddol – rhyngweithiadau a fydd yn cael yr effaith net o greu diwylliant seneddol y Senedd nesaf.

**51.** Gall y Seithfed Senedd fod yn senedd sy'n dysgu, lle mae ei Haelodau'n datblygu ac yn cryfhau'r ffordd y mae busnes yn cael ei gynnal drwy gyfnewid gwybodaeth a phrofiad o'r ddwy ochr. Bydd yr Aelodau am gynrychioli eu hetholwyr, a'u safbwyntiau gwleidyddol, ond gallant hefyd greu amgylchedd lle maent yn rhoi gwerth ar fod yn ddeddfwyr, craffwyr, arbenigwyr polisi, a dadleuwyr da ac yn y blaen. Daw'r gwerth hwn wrth i Aelodau osod disgwyliadau ar gyfer ei gilydd, mewn ffordd ddwyochrog, ac o ddeall y cyflawniad personol a allai ddeillio o berfformiad seneddol da.

**52.** Mae'r cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd yn gyfle unigryw i adeiladu ar yr agweddau cadarnhaol sydd wedi datblygu ers sefydlu'r Senedd i feithrin amgylchedd o'r fath, amgylchedd a fydd yn annog ail-fuddsoddi capasiti Aelodau ychwanegol i gryfhau gwaith y Senedd ac, yn y pen draw, yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl Cymru.

## Y Cyfarfod Llawn

**53.** Trafodwyd ystod o faterion penodol yn ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod ein gwaith. Disgrifir y rhain o dan y penawdau isod.

**Casgliad 3.** Yn gyffredinol, credwn y dylid gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i Aelodau meinciau cefn y Senedd gyfrannu at fusnes y Senedd yn y Seithfed Senedd, gan dderbyn y bydd Senedd fwy yn her o ran y cyfleoedd sydd ar gael fesul Aelod o'i gymharu â nawr.

### Fformat cwestiynau llafar, a datganiadau llafar

**54.** Gwnaethom archwilio ffyrdd y gellid gwella fformat yr eitemau hyn yn y Cyfarfod Llawn, ond ni ddaethom i gasgliadau ar unrhyw newidiadau penodol i'w gwneud.

**55.** Awgrymodd rhai aelodau y dylid gosod terfyn amser ar ymatebion Gweinidogol i gwestiynau, er mwyn darparu mwy o amser ar gyfer cwestiynau atodol, neu hyd yn oed gyflwyno'r gallu i ofyn cwestiynau atodol pellach.

**56.** Roedd rhai yn teimlo bod anghydbwysedd o ran y pum munud a roddir i lefarwyr a'r cofnod a ddarparwyd ar gyfer Aelodau'r meinciau cefn yn ystod datganiadau, tra bod aelodau eraill yn cefnogi parhau â'r dyraniad amser hwn.

**57.** Mae Llywodraeth Cymru o blaid "[...] *rhoi mwy o gyfle i siaradwyr (heblaw'r Gweinidog a llefarwyr y gwrthbleidiau) ofyn cwestiynau mewn ymateb i ddatganiad llafar*".[4]

**58.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd o blaid lleihau nifer y cwestiynau llafar sy'n cael eu dethol i'w hateb, a chaniatáu i'r Pwyllgor Busnes benderfynu pa mor aml y mae'n rhaid i Weinidogion ateb cwestiynau.

[4] Atodiad A i'r llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Gadeirydd Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol, 7 Chwefror 2025

**59.** Gwelsom y gallai Gweinidogion fod yn fwy cryno ar adegau, wrth ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn, a allai alluogi cyrraedd mwy o gwestiynau mewn un sesiwn.

**60.** Awgrymwyd y gallai Aelodau sy'n gofyn cwestiynau am ddatganiad ddymuno ystyried nifer y cwestiynau y maent yn eu gofyn o fewn yr amser a ddyrannwyd iddynt, ac a yw'n bosibl i'r Aelod sy'n cyflwyno'r datganiad ateb nifer y cwestiynau a ofynnwyd iddo o fewn ei ddyraniad amser priodol.[5]

**Casgliad 4.** Buom yn trafod y disgwyliad i Aelodau sy'n cyfrannu at eitem o fusnes y Cyfarfod Llawn fod yn bresennol, a chymryd rhan lawn yn y ddadl, drwy gydol yr eitem. Mae hwn yn ddisgwyliad y dylid ei drosglwyddo i'r Seithfed Senedd.

**Casgliad 5.** Er y gellir ystyried arloesiadau gweithdrefnol, neu newidiadau i ganllawiau, yn nhermau busnes y Cyfarfod Llawn, a gellid hyd yn oed eu treialu yn y Chweched Senedd, mae mwy y gallai Aelodau unigol ei wneud i wneud yr eitemau hyn yn fwy effeithiol, o ran sut mae cwestiynau'n cael eu gofyn, sut mae atebion yn cael eu rhoi, a'r defnydd effeithiol o ymyriadau (yn ystod dadleuon).

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn adolygu cydbwysedd yr amser a ddyrennir i lefarwyr ac Aelodau'r meinciau cefn, a'r achos dros osod cyfyngiad amser ar ymatebion i gwestiynau a datganiadau, gyda'r bwriad o sicrhau bod Aelodau'r meinciau cefn yn y Seithfed Senedd yn cael cyfle teg i gyfrannu yn ystod Cyfarfodydd Llawn.

## Amserlennu busnes y Llywodraeth

**61.** Galwodd Llywodraeth Cymru am "*[...] mwy o hyblygrwydd i gynnig defnyddio cyfran uwch o amser y Cyfarfod Llawn mewn wythnos benodol i hwyluso busnes [y Llywodraeth]*" ar y sail nad oes gan y Llywodraeth ddisgresiwn dros ddyrannu amser i agweddau arwyddocaol ar yr hyn sy'n cael ei gategoreiddio fel "busnes y Llywodraeth" h.y. Cwestiynau i'r Prif Weinidog a Chwestiynau Llafar y Gweinidogion.[6]

**62.** Hefyd, awgrymodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r rheolau derbyniadwyedd ar gyfer Cwestiynau Ysgrifenedig.

[5] Mae'r "Aelod sy'n cyflwyno'r datganiad" fel arfer yn Weinidog, ond gall fod yn gategori arall o Aelod. Gweler Rheol Sefydlog 12.50 y Senedd.
[6] Atodiad A i'r llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Gadeirydd Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol, 7 Chwefror 2025

**Casgliad 6.** Rydym yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y disgresiwn sydd ganddi i amserlennu busnes, y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddi ynghylch nifer y cwestiynau llafar yn 2024 na chawsant eu hateb, a'i barn ar newidiadau posibl i'r rheolau derbyniadwyedd ar gyfer Cwestiynau Ysgrifenedig.

## Pwyllgorau

### Cyflwyniad

**63.** Nid yw'r rhan fwyaf o'r ffactorau sy'n pennu system bwyllgorau yn hysbys tan ar ôl etholiad. Y rheswm dros hynny yw na fydd cydbwysedd gwleidyddol Senedd newydd – penderfyniadau am y blaid (neu bleidiau) sy'n ffurfio llywodraeth, a chanlyniadau trafodaethau gwleidyddol ehangach o ran dyrannu swyddfeydd eraill (yn aml yn gysylltiedig â thrafodaethau ynghylch Cadeiryddion pwyllgorau a lleoedd ar bwyllgorau) – yn hysbys tan hynny.

**64.** Ar yr adeg hon, gwnaethom benderfynu gynorthwyo'r Senedd bresennol gyda'i gwaith cynllunio – a Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd newydd, pan ddaw – i ystyried penderfyniadau ar sefydlu pwyllgorau, drwy gymryd y camau a ganlyn:

- darparu opsiynau lefel uchel wedi'u harfarnu ar gyfer trefn gyffredinol busnes seneddol y Senedd sy'n cynnwys dyraniadau amser ar gyfer busnes pwyllgorau (a drafodir yn Adran 2 o'r adroddiad hwn); a
- nodi bylchau mewn gwybodaeth am effeithiolrwydd pwyllgorau y gellid eu llenwi cyn y Seithfed Senedd i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

**65.** Bydd Fforwm y Cadeiryddion yn adolygu'r system bwyllgorau, gyda'r bwriad o lywio prosesau gwneud penderfyniadau'r Seithfed Senedd. At hynny, mae Fforwm y Cadeiryddion yn berchen ar yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Diana Stirbu yn ei hadroddiad ar effeithiolrwydd pwyllgorau.[7]

**66.** O ganlyniad, rydym ond wedi ceisio tynnu sylw at rai materion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd pwyllgorau sydd wedi codi yn ein trafodaethau, gan adael ystyriaeth ehangach a dyfnach i Fforwm y Cadeiryddion.

[7] Stirbu, Diana, *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau*, Prifysgol Fetropolitan Llundain a Senedd Cymru, 2021

## Amser ar gyfer gwaith pwyllgorau

**67.** Er mwyn datblygu'r opsiynau ar gyfer trefn busnes seneddol a werthuswyd gennym, roedd angen ystyried yr amser a neilltuwyd ar gyfer busnes pwyllgorau.

**68.** Er na ellir dirnad sawl agwedd ar system bwyllgorau'r dyfodol, un sicrwydd yw bod y dasg o gynnal gwaith craffu ar y cyd i bwyllgorau, yn fras, yn aros yr un fath ag y mae ar hyn o bryd. Hynny yw, ni ddisgwylir i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a chymhwysedd a chyfrifoldebau gweithredol Llywodraeth Cymru, newid yn sylweddol cyn y Senedd nesaf.

**69.** Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn dewis cyflwyno mwy o ddeddfwriaeth yn y Seithfed Senedd, a fyddai'n cynyddu'r pwysau ar system bwyllgorau, ond mae hyd a lled y meysydd posibl y gallai'r ddeddfwriaeth honno syrthio o'u mewn yn parhau i fod yr un fath.

**70.** Roedd y rhagdybiaethau cynllunio a fabwysiadwyd gan Gomisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes i lywio datblygiad Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, i gyd-fynd â Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai cynnydd yn nifer y pwyllgorau: cynnydd o un pwyllgor o dan y senario newid llai a chynnydd o dri o dan y senario newid mwy.[8]

**71.** Ar yr wyneb, mae'r rhain yn ymddangos fel codiadau cymedrol, o ystyried y cynnydd o 60% ym maint y Senedd.

**72.** Y rheswm dros ragdybio mai dim ond cynnydd bychan a fydd yn nifer y pwyllgorau yw, o dan y modelu a ddefnyddiwyd ar yr adeg honno (diwedd 2021), y byddai unrhyw gynnydd pellach yn nifer y pwyllgorau yn cynyddu'r tebygolrwydd o'r rheidrwydd i nifer sylweddol o Aelodau eistedd ar nag un pwyllgor.[9]

**73.** Mae cyfran y bleidlais yng Nghymru yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024 – a'r pôl piniwn dilynol i bennu sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio yn Etholiad y Senedd yn 2026 – wedi dechrau awgrymu bod yna bosibilrwydd o ganlyniadau gwahanol yn sgil etholiad. Ymddengys bod hyn yn atgyfnerthu'r rhagdybiaeth mai dim ond cynnydd bach yn nifer y pwyllgorau fydd yn bosibl yn y Seithfed Senedd, heb roi pwysau sylweddol ar aelodau pwyllgorau sy'n dod o grwpiau gwleidyddol mewn llywodraeth.

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Ebrill 2024
[9] Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru, Cofnod y Trafodion 11 Hydref 2023, paragraff 29

**74.** Y rheswm dros hynny yw ei bod yn debygol y bydd angen i grwpiau gwleidyddol mewn llywodraeth lenwi nifer uchel o leoedd pwyllgor, gyda chymharol ychydig o Aelodau'n gymwys i lenwi'r lleoedd hynny (yn dilyn penodiadau i rolau gyda'r llywodraeth). Mae'r cynnydd yn nifer Gweinidogion Cymru yn y Seithfed Senedd yn rhoi pwysau pellach ar allu grwpiau gwleidyddol mewn llywodraeth, o ran llenwi lleoedd pwyllgorau.

**75.** Os derbynnir mai dim ond cynnydd bychan yng nghyfanswm y pwyllgorau sy'n debygol, am y rhesymau hyn, i bob golwg, gellid cynnwys y pwyllgorau hyn o fewn amserlen pwyllgorau sy'n debyg i'r un sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae'r opsiynau a werthuswyd gennym, yn adran 2 o'r adroddiad hwn, i gyd yn darparu dyraniad amser tebyg i bwyllgorau (er bod rhywfaint o'r amser hwn wedi'i rannu â'r Cyfarfod Llawn o dan rai opsiynau).

**Casgliad 7.** Mae'r ystyriaethau hyn wedi ein harwain i'r casgliad, os yw'r Seithfed Senedd am sicrhau bod y cynnydd ym maint y Senedd yn darparu'r cynnydd disgwyliedig yng nghapasiti Aelodau unigol i ymgysylltu â gwaith pwyllgorau, y tebyg yw na fydd gan y Seithfed Senedd ond hyblygrwydd cyfyngedig i ehangu'r pwyllgorau o ran nifer neu faint. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr etholiad (cydbwysedd gwleidyddol, maint y grwpiau, nifer y grwpiau/Aelodau yn y llywodraeth ac ati).

### Cyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau yn cyfarfod ar yr un pryd

**76.** Mae cryfderau a gwendidau amserlennu Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau ar yr un pryd yn cael eu trafod yn ein hasesiad o "Opsiwn 2" yn adran 2 o'r adroddiad hwn.

**77.** Er bod llawer o amrywiolion a allai effeithio ar y galw ar grwpiau gwleidyddol o ran nifer yr Aelodau sydd ar gael i eistedd ar bwyllgorau, mae rhai o'r senarios yn sgil yr etholiad yn awgrymu y gallai gwasanaethu pwyllgorau a chynnal y Cyfarfod Llawn ar yr un pryd fod yn heriol i grwpiau gwleidyddol mewn llywodraeth – yn dibynnu ar y lefel y goddefgarwch sydd ar gyfer niferoedd yn y Siambr, a/neu absenoldeb o bwyllgorau.

**78.** Mae Llywodraeth Cymru o blaid galluogi pwyllgorau i gyfarfod ar yr un pryd â'r Cyfarfod Llawn, "*[…] gydag eithriadau amlwg sy'n ymwneud ag eitemau*

*busnes allweddol (e.e. FMQs, trafodion deddfwriaeth, amser pleidleisio, ac eitemau busnes proffil uchel eraill)"*.[10]

**Casgliad 8.** Rydym yn cefnogi cadw'r hyblygrwydd gweithdrefnol sy'n bodoli ar hyn o bryd i bwyllgorau gyfarfod ar yr un pryd â'r Cyfarfod Llawn, ac y gallai cynnal Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau ar yr un pryd fod yn gyfaddawd angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer mwy o fusnes yn y Seithfed Senedd. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gryfderau a gwendidau dull o'r fath (fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn) cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan y Seithfed Senedd.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn ystyried sut y gallai sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl i bwyllgorau, o ran amserlennu cyfarfodydd.

## Deall effeithiolrwydd pwyllgorau

**79.** Mae'n anodd deall yr effaith y mae pwyllgorau seneddol yn ei chael.

**80.** Mae astudiaethau yn y Deyrnas Unedig dros y 15 mlynedd diwethaf, fwy neu lai – gyda'r ffocws yn bennaf ar Dŷ'r Cyffredin – wedi ceisio datblygu dealltwriaeth o ddylanwad posibl pwyllgorau seneddol, ynghyd â nodweddion craffu effeithiol.[11]

**81.** Mae dulliau ethnograffig o astudio seneddau wedi rhoi mewnwelediad i sut y gall aelodau etholedig gymryd rolau gwahanol yn eu hymagwedd at eu gwaith ac y gall gwahanol weithredwyr feddu ar wahanol ddealltwriaeth o gysyniadau canolog, megis gwaith craffu.[12]

**82.** Er mwyn datblygu dealltwriaeth yng nghyd-destun y Senedd, comisiynwyd yr Athro Diana Stirbu gan y Chweched Senedd i ystyried yr amodau ar gyfer gwaith craffu effeithiol, a dull o werthuso effeithiolrwydd pwyllgorau.[13]

**83.** Yn sgil ein trafodaethau gwnaethom ystyried nifer o faterion yn ymwneud â threfn busnes pwyllgorau. Disgrifir y rhain o dan y penawdau isod.

---

[10] Atodiad A i'r llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Gadeirydd Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol, 7 Chwefror 2025
[11] Dyma ddwy enghraifft: Russell, Meg a Benton, Meghan, *Selective Influence: The policy impact of House of Commons Select Committees*, Coleg Prifysgol Llundain, 2011 a White, Hannah, *Select Committee under Scrutiny*, Institute for Government, 2015
[12] Er enghraifft, Geddes, Marc, *Dramas at Westminster: Select committees and the quest for accountability*, Gwasg Prifysgol Manceinion, 2020
[13] Stirbu, Diana, *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau*, Prifysgol Fetropolitan Llundain a Senedd Cymru, 2021

### Dylai Aelodau eistedd ar un pwyllgor yn unig

**84.** Un o'r ysgogwyr ar gyfer Senedd fwy o faint oedd y dyhead i Aelodau eistedd ar un pwyllgor yn unig. Roedd y dyhead hwn yn seiliedig ar ragdybiaeth, pe bai Aelodau'n eistedd ar un pwyllgor yn unig y byddent yn gallu neilltuo mwy o amser i baratoi ar gyfer gwaith pwyllgor, ac arbenigo yn y maes polisi a gwmpesir gan y pwyllgor hwnnw. Yn y pen draw, felly, y ddadl yw y byddai'r cynnydd hwn mewn capasiti ar lefel Aelod unigol yn arwain at waith craffu mwy effeithiol gan bwyllgorau.

**85.** Er ei bod yn ymddangos bod hwn yn gasgliad rhesymegol, bydd angen gwneud rhagor o waith i benderfynu a yw pwyllgor sydd â'i Aelodau yn eistedd ar un pwyllgor yn unig yn cyflawni canlyniadau gwell o ran gwaith craffu.

**86.** Er enghraifft:

- A fyddai Aelod yn dewis defnyddio unrhyw amser a enillwyd o eistedd ar un pwyllgor yn unig i baratoi'n well ar gyfer gwaith pwyllgor? Neu a fyddent yn dewis ail-fuddsoddi'r amser hwnnw mewn agwedd arall ar eu rôl?
- A oes mantais o gael rhai Aelodau i eistedd ar fwy nag un pwyllgor, o safbwynt mabwysiadu agwedd fwy trawsbynciol wrth graffu?

**87.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, nod yr iteriad cyntaf o amserlen y pwyllgor oedd lleihau nifer yr Aelodau a oedd yn gorfod eistedd ar fwy nag un pwyllgor, mewn unrhyw wythnos eistedd benodol. Er mwyn darparu ar gyfer y galw gan rai pwyllgorau i gyfarfod yn amlach, roedd amserlen pwyllgorau ddiwygiedig yn cynnig slotiau ychwanegol dewisol i bwyllgorau ddarparu hyblygrwydd rhagweladwy – gan roi'r penderfyniad o ran a ddylid ymrwymo i gyfarfodydd wythnosol yn nwylo'r pwyllgorau a'u Haelodau.

**88.** O ran y senarios yn sgil yr etholiad a awgrymwyd yn ôl polau piniwn mwy diweddar, mae'n ymddangos yn debygol y bydd yn rhaid i rai Aelodau eistedd ar fwy nag un pwyllgor, ac mae'n sicr yn bosibl y bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o Aelodau'r meinciau cefn o grwpiau gwleidyddol yn y llywodraeth eistedd ar ddau bwyllgor.

**89.** Os yw'r dyhead i Aelodau eistedd ar un pwyllgor yn unig i'w gyflawni, efallai y bydd angen 'cyfaddawdu' ar agweddau eraill ar y system bwyllgorau, e.e. sefydlu llai o bwyllgorau a/neu bwyllgorau llai, o faint neu drefniadau pleidleisio gwahanol.

**90.** At hynny, mae'r cyfaddawdau hyn yn effeithio ar gapasiti Aelodau unigol. Os caiff system bwyllgorau ei dyfeisio fel bod Aelod yn eistedd ar un pwyllgor yn unig, mae'n debygol y byddai llai a llai o bwyllgorau (gyda chylchoedd gwaith ehangach). O dan yr amgylchiadau hyn, gellir dadlau y byddai angen i Aelod neilltuo mwy o'i allu i gwmpasu'r maes polisi y mae cylch gorchwyl eang yn gofyn amdano, a gwneud mwy o waith wrth eistedd ar bwyllgor (gan fod ei waith wedi'i rannu rhwng llai o Aelodau).

**91.** Mynegodd Llywodraeth Cymru y farn a ganlyn:

> *"Rydym yn cefnogi'r egwyddor, gan ddefnyddio'r strwythur pwyllgorau presennol a chan ddefnyddio pwyllgorau 'gorchwyl a gorffen', na ddylai unrhyw Aelod eistedd ar fwy nag un pwyllgor pwnc polisi. Mae hyn yn caniatáu i Aelodau arbenigo ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran busnes y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau bob wythnos."*

**Casgliad 9.** Un o'r brif ddadlau o blaid ehangu maint y Senedd yw cynyddu capasiti'r Aelodau ar gyfer cynnal gwaith craffu pwyllgorau. Dylid sefydlu trefniadau monitro o ddechrau'r Seithfed Senedd i benderfynu a yw'r cynnydd ym maint y Senedd yn sicrhau'r cynnydd a ddymunir yng nghapasiti craffu pwyllgorau ar lefel Aelodau; y gallu i Aelodau arbenigo; ac, yn y pen draw, gwell canlyniadau o ran craffu gan bwyllgorau o gymharu â Seneddau llai y gorffennol.

**92.** Er mwyn deall hyn, efallai y bydd angen cynnal astudiaeth sylfaenol yn canolbwyntio ar y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd, yn ystyried y ffordd orau o sefydlu trefniadau i ddeall yr effaith y mae'r cynnydd ym maint y Senedd yn ei chael ar yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio'n paratoi ar gyfer gwaith pwyllgor, ac a yw hyn yn arwain at ganlyniadau craffu gwell.

### Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun, neu ar wahân?

**93.** Mae'r Senedd yn gweithredu system bwyllgorau sy'n cynnwys pwyllgorau craffu polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol. Dyma'r un model â Senedd yr Alban ac mae'n nodwedd gyffredin mewn deddfwrfeydd Ewropeaidd.

**94.** Mae Tŷ'r Cyffredin yn gweithredu system sy'n cynnwys Pwyllgorau Dethol Adrannol, a Phwyllgorau Biliau Cyhoeddus ar wahân.

**95.** Mae'r safbwyntiau ynghylch y manteision ac anfanteision pan ddaw i ystyried a yw un dull neu'r llall yn fwy effeithiol wedi cael llawer o sylw.

**96.** Roedd y Pwyllgorau Busnes yn y Pedwerydd, y Pumed, a'r Chweched Seneddau yn ffafrio'r model swyddogaethau cyfun, h.y. yn y cyfnod ers i'r Senedd gael pwerau deddfu llawn.

**97.** Mewn gwirionedd, ymddengys mai ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod un dull yn cynnig unrhyw fantais dros y llall o ran effeithiolrwydd gwaith craffu.

**98.** Canfu Diana Stirbu nad oedd ei gwaith ymchwil:

> *"[...] wedi datgelu tystiolaeth sylweddol bod rôl ddeuol pwyllgorau yn amharu ar effeithiolrwydd, ni ddatgelodd ychwaith dystiolaeth gadarn bod y model hwn yn gwella effeithiolrwydd ychwaith."*[14]

**99.** Aeth yr Athro Stirbu ymlaen ymhellach gan argymell y canlynol:

> *"Bod y Pwyllgor Busnes, yn y Chweched Senedd, yn adolygu ['r] [...] rhinweddau a'r gwendidau sy'n gynhenid i'r system bwyllgorau swyddogaeth ddeuol."*[15]

**100.** Mynegodd Llywodraeth Cymru y farn a ganlyn:

> *"Rydym o blaid parhau i gael pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun, gan gydnabod yr un pryd y gall fod lle i bwyllgorau deddfwriaeth fel pwyllgorau 'gorchwyl a gorffen' ad hoc pan na fydd yn ymarferol nac yn briodol cyfeirio Bil at bwyllgor polisi. Mae sefydlu'r Pwyllgor Biliau Diwygio yn enghraifft dda o sut y gall y dull hwn weithio tuag at graffu effeithiol ac effeithlon."*[16]

**101.** Buom hefyd yn meddwl am enghreifftiau lle'r oedd y Senedd wedi ymateb yn hyblyg i reoli craffu deddfwriaethol yn y gorffennol. Trafodwyd yr enghraifft o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn y Bumed Senedd. Cyn canlyniad y refferendwm ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, roedd y Pwyllgor

---

[14] Stirbu, Diana, *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau*, Prifysgol Fetropolitan Llundain a Senedd Cymru, 2021 t.77
[15] Stirbu, Diana, *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau*, Prifysgol Fetropolitan Llundain a Senedd Cymru, 2021 t.77
[16] Atodiad A i'r llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Gadeirydd Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol, 7 Chwefror 2025

Busnes wedi ystyried sefydlu'r pwyllgor hwn fel pwyllgor wrth gefn, i helpu i ymdrin â'r cyfnodau brig yn y galw deddfwriaethol.[17]

**102.** Er mwyn rheoli'r gwaith o graffu ar Fil ochr yn ochr â'i lwyth gwaith sylweddol yn ymwneud â Brexit, creodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol is-bwyllgor i ystyried y Bil.[18] Roedd hyn yn lleihau'r tarfu ar raglen waith graidd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a hefyd yn galluogi arbenigwyr polisi i fynychu'r is-bwyllgor fel dirprwyon, er mwyn galluogi cymhwyso arbenigedd polisi.

**Casgliad 10.** Yn hytrach na bod yn benderfyniad deuaidd rhwng gweithredu pwyllgorau swyddogaeth gyfun neu bwyllgorau polisi a deddfwriaeth ar wahân, mae enghreifftiau o orffennol y Senedd yn dangos bod opsiynau mwy cynnil ar gael i'r Seithfed Senedd wrth benderfynu ar ei system bwyllgorau.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes, yn ailedrych ar argymhelliad 1.1 yn adroddiad yr Athro Stirbu i benderfynu a fyddai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn elwa o waith i:

- archwilio a oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth mewn canlyniadau a gyflawnir gan system bwyllgorau sy'n defnyddio pwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol yn bennaf (e.e. Senedd yr Alban, y Senedd, a rhai deddfwrfeydd Ewropeaidd) o gymharu â system sy'n defnyddio pwyllgorau craffu ar bolisi a phwyllgorau Bil cyhoeddus ad hoc ar wahân (e.e. Tŷ'r Cyffredin, deddfwrfeydd y Gymanwlad); a/neu
- archwilio a oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth mewn canlyniadau o system bwyllgorau sy'n gysylltiedig â threfniadaeth y llywodraeth o gyfrifoldebau Gweinidogol (e.e. Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin), o'i gymharu â system bwyllgorau nad yw (e.e. y Senedd).

### Diwylliant pwyllgorau

**103.** Tra bod angen rhoi sylw i strwythur a threfniadaeth wrth sefydlu pwyllgorau effeithiol, mae datblygiad y 'diwylliant pwyllgorau' yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol yn llwyddiant pwyllgorau – y patrwm o normau ac ymddygiadau a fabwysiedir gan Aelodau (ac eraill sydd ynghlwm wrth waith pwyllgor) yn amgylchedd pwyllgorau.

---

[17] Senedd Cymru, y Pwyllgor Busnes, *Pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad*, Gorffennaf 2016
[18] Yr Is-bwyllgor ar y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

**104.** Er enghraifft, y dull llai pleidiol a ddefnyddir yn aml ar bwyllgorau, datblygu ethos o gydweithredu, diwylliant o werthuso, a lefel o ymddiriedaeth sy'n galluogi rhannu adborth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.

**105.** Mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael i gefnogi'r honiad mai deddfwrfeydd sy'n perfformio'n dda yw'r rheini lle mae Aelodau'n gosod disgwyliadau uchel ar ei gilydd o ran cyflawni eu rolau seneddol, lle mae Aelodau eisiau bodloni disgwyliadau eu cymheiriaid – a rhagori arnynt – o ran gwaith craffu a deddfu.[19]

**106.** Wrth gwrs, mae yna hefyd normau ac ymddygiadau sydd wedi datblygu a allai gael eu hystyried yn llai dymunol e.e. "darllen cwestiynau ar goedd" yn hytrach nag ymgysylltu'n llawn â gwaith craffu ac ati.

**107.** Ffactorau diwylliannol yw'r rhain, yn hytrach na bod yn rhai strwythurol neu'n weithdrefnol.

**108.** Mae her a chyfle wrth drosglwyddo i'r Seithfed Senedd, lle mae'n debygol y bydd mwyafrif yr Aelodau'n newydd i'r sefydliad (efallai dros 60%).

**109.** Yr her yw deall y normau a'r ymddygiadau cadarnhaol sy'n bodoli, ond nad ydynt wedi'u hysgrifennu yn unman – y math o bethau y gellid eu derbyn fel 'y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yn y Senedd' – a sicrhau bod y rhain yn cael cyfle i ymsefydlu yn y Seithfed Senedd. Mae hyn, efallai, yn bwysicach fyth o ystyried y rôl gymdeithasu y gall pwyllgorau ei chwarae i Aelodau newydd o ran eu rolau seneddol yn fwy eang, hefyd.[20]

**110.** Y cyfle yw deall rhai o'r ffyrdd llai effeithiol o weithio a cheisio mynd i'r afael â'r rhain wrth i ddiwylliant newydd y Seithfed Senedd ddatblygu.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Fforwm y Cadeiryddion, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd, yn ystyried comisiynu gwaith i gofnodi a chyfleu diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd, gyda'r bwriad o nodi'r normau ac arferion anffurfiol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan Aelodau, a'r rhai nad ydynt, er mwyn cynorthwyo i gadw normau ac arferion cadarnhaol rhwng Seneddau, a llywio prosesau cynefino.

[19] Muir Jr, W.K., *Legislature: California's school for politics*, Gwasg Prifysgol Chicago, 1982
[20] Gweler Geddes, Marc, *Dramas at Westminster: Select committees and the quest for accountability*, Gwasg Prifysgol Manceinion, 2020 am ddisgrifiad o effaith gymdeithasoli pwyllgorau a welodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

# 4. Atebion i rwystrau

Mae mynd i'r afael â rhwystrau i ddod yn Aelod o'r Senedd, a chyflawni rôl Aelod o'r Senedd, yn gyfrifoldeb a rennir. Mae gan y gymdeithas yn gyffredinol, pleidiau gwleidyddol, Aelodau o'r Senedd, y Bwrdd Taliadau Annibynnol, a Chomisiwn y Senedd i gyd ran i'w chwarae.

## Cyflwyniad

**111.** Wrth fynd i'r afael â'r agwedd hon ar ein cylch gorchwyl, roeddem yn ymwybodol o waith sy'n bodoli eisoes i nodi atebion i rwystrau i gael eich ethol, ac i gyflawni rôl aelod etholedig o senedd. Nid ydym wedi ceisio atgynhyrchu'r gwaith hwn ac, o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael i ni, ni allem fod wedi'i atgynhyrchu i lefel debyg o ddyfnder. Darperir llyfryddiaeth ddethol yn Atodiad 1.

**112.** Roedd y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gweithio ar ei benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd ar yr un pryd ag yr oeddem yn ymgymryd â'n gwaith. Rydym wedi ceisio osgoi unrhyw gorgyffwrdd â gwaith y Bwrdd Taliadau Annibynnol ac rydym ni, fel Aelodau unigol o'r Senedd, wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Bwrdd.

**113.** Fel y disgrifiwyd ym mharagraff 4 uchod, fe wnaethom osod amcan i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddileu rhwystrau o ran asesu opsiynau ar gyfer trefn busnes.

**114.** Ochr yn ochr â'r ystyriaethau a gafodd eu hymgorffori yn yr asesiad hwnnw, sef pwnc adran 2 o'r adroddiad hwn, fe wnaethom hefyd nodi nifer o feysydd pellach yr hoffem ddwyn sylw'r Senedd atynt.

## Rhwystrau cymdeithasol

**115.** Yn seiliedig ar farn yr Aelodau, a'r cyn-Aelodau a gymerodd ran yn y drafodaeth bord gron ar 12 Rhagfyr, mae rhwystrau cymdeithasol sylweddol i ddod yn ymgeisydd ar gyfer etholiad i'r Senedd.

**116.** Nid ydym wedi cael yr amser i ystyried ffactorau cymdeithasol ehangach yn ein gwaith. Rydym yn nodi Cynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar ddiogelwch ymgeiswyr, ASau, ac etholiadau sy'n ystyried materion o'r fath.

**Casgliad 11.** Efallai y byddai person neu gorff priodol yn y Seithfed Senedd yn dymuno meddwl am y ffordd y cynhaliwyd Etholiad y Senedd yn 2026, a chanfyddiadau Cynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, a phenderfynu a oes angen gwneud gwaith pellach ar y rhwystrau cymdeithasol i gyfranogiad yng nghyd-destun y Senedd.

## Pleidiau gwleidyddol

**117.** Gall y broses o ddethol ymgeiswyr a ddefnyddir gan bleidiau gwleidyddol fod yn rhwystr a mater i bleidiau gwleidyddol yw mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a gyflwynir gan eu prosesau dethol mewnol.

**118.** Mae'n ymddangos bod gan ganllawiau gwirfoddol Llywodraeth Cymru i bleidiau gwleidyddol y potensial i gynorthwyo wrth leihau rhwystrau, os cânt eu gweithredu gan bleidiau gwleidyddol, er nad ydym wedi craffu ar fanylion y canllawiau drafft gan fod ein haelodaeth yn ein hatal rhag craffu ar Lywodraeth Cymru.[21]

**119.** Yng nghyd-destun recriwtio ymgeiswyr, trafodwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn deall yr ystod lawn o gyfrifoldebau sydd gan Aelod o'r Senedd, a'r ymrwymiad amser sydd ei angen i wneud y gwaith yn dda.

**Casgliad 12.** Efallai y byddai person neu gorff priodol yn y Seithfed Senedd yn dymuno ystyried a yw'r ddarpariaeth yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 sy'n ymwneud â hygyrchedd ac amrywiaeth mewn etholiadau Cymru wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau rhwystrau o ran cymryd rhan mewn swydd etholedig.

## Cefnogi Aelodau Newydd

**120.** Gwnaethom drafod yr angen am raglen gynefino sy'n cefnogi Aelodau newydd gyda'r ystod lawn o swyddogaethau a ddisgwylir ganddynt, ac i hyn gael ei roi mewn trefn fel bod gwybodaeth flaenoriaeth yn cael ei darparu yn gyntaf

[21] Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Drafft ar Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig: Canllawiau gwirfoddol ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig*, Mawrth 2025

e.e. materion cyflogaeth o flaen llaw e.e. sefydlu swyddfa cyn e.e. bod yn aelod effeithiol o'r pwyllgor.

**121.** Gallai'r cyfnod yn dilyn yr etholiad gynnig cyfle i gyflwyno cyfnod cynefino dwys i Aelodau, yn enwedig os oes unrhyw seibiant tra bod trafodaethau ynghylch llywodraeth glymblaid yn cael eu cynnal.

**122.** Mae'n bwysig i ddarpar ymgeiswyr gael gwybod ymlaen llaw am y cymorth sydd ar gael iddynt, fel eu bod yn gwybod y byddent yn cael eu cefnogi pe caent eu hethol.

**123.** Rhwystr arall a nodwyd gennym oedd y disgwyliad i Aelodau ysgwyddo treuliau sylweddol ymlaen llaw ac yna eu hawlio'n ôl. Mae hyn yn tybio bod Aelodau yn gallu fforddio gwneud hyn.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd, wrth gynllunio ei raglen gynefino ar gyfer Aelodau newydd, yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i drefn y wybodaeth a ddarperir, fel bod materion fel sefydlu swyddfa a deall y Cyfarfod Llawn yn cael eu blaenoriaethu.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn gwneud trefniadau, cyn dechrau'r Seithfed Senedd, i roi dewis arall i Aelodau yn lle talu costau ymlaen llaw treuliau sylweddol o'u harian personol.

## Rhagweladwyedd y diwrnod busnes

**124.** Gwelsom y gall oriau gwaith "sy'n ystyriol o deuluoedd" fel cysyniad (er ei fod yn llawn bwriadau da) fod yn anfuddiol gan fod ei ddealltwriaeth, a'i gymhwysedd i Aelodau sy'n byw pellteroedd gwahanol o Fae Caerdydd, yn amrywiol.

**125.** Yn hytrach na cheisio diffinio beth allai fod yn ystyriol o deuluoedd, dylai'r Senedd geisio darparu mwy o sicrwydd ynghylch amseroedd cychwyn a gorffen ar gyfer diwrnodau busnes. Gallai'r opsiwn aml-wythnos ar gyfer trefnu busnes (neu amrywiad o hyn) gynnig sicrwydd i Aelodau ynghylch wythnos lle mae angen amseroedd gorffen hwyrach ac wythnosau lle mae amseroedd gorffen cynharach, er enghraifft.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y Seithfed Senedd, wrth gynllunio'r amserlen fusnes, yn sicrhau bod amseroedd cychwyn a gorffen diwrnodau busnes mor rhagweladwy â phosibl, gan fod angen y sicrwydd hwn fel bod modd i'r Aelodau rhagbaratoi trefniadau gofal, trefniadau a fydd yn amrywio'n sylweddol

yn dibynnu ar amgylchiadau pob Aelod a pha mor agos yw eu prif gyfeiriad i'r Senedd.

**Argymhelliad 11.** Wrth ystyried Argymhelliad 1, rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid diwygio Rheol Sefydlog 11.10 (sy'n ymwneud â'r amseroedd y dylid amserlennu busnes fel arfer ynddynt) cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Crèche

**126.** Credwn y dylid darparu gwasanaeth crèche ar ystad Bae Caerdydd, i gynorthwyo Aelodau sydd â phlant ifanc ac i ddangos ymrwymiad y Senedd i gefnogi Aelodau sydd â chyfrifoldebau fel rhieni.

**127.** Ar 6 Mawrth 2025, gwnaethom ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd i ofyn iddo sefydlu gwasanaeth crèche.

**128.** Er bod ein gwaith yn canolbwyntio ar Aelodau, dylai holl ddefnyddwyr yr ystad ddefnyddio crèche fel gweithle (e.e. Aelodau o Staff Cymorth y Senedd, Staff y Comisiwn) ac o bosibl ymwelwyr â'r ystad hefyd (e.e. gwahoddedigion pwyllgor).

**129.** Dylid ystyried gofodau eraill i gefnogi llesiant defnyddwyr yr ystad. Er enghraifft, gofod ffydd gwell, a lle i hyrwyddo gweithgarwch corfforol.

## Cymryd rhan mewn trafodion o bell

**130.** Mae'r gallu i gymryd rhan o bell yn dileu rhwystr i Aelodau sy'n gorfod rheoli ffactorau fel cyfrifoldebau gofalu, cyflyrau iechyd, a/neu faterion eraill a allai effeithio ar eu gallu i fod ar y safle yn y Senedd.

**Casgliad 13.** Dylid cadw'r gallu i gymryd rhan o bell yn y Seithfed Senedd, yn enwedig gan y gallai ymgeiswyr fod yn sefyll ar y ddealltwriaeth y bydd y dull hwn o gymryd rhan ar gael iddynt.

**Argymhelliad 12.** Dylid adolygu'r canllawiau ar gyfranogiad o bell o bryd i'w gilydd i sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cyfranogiad yn y cnawd a chyfranogiad o bell ar draws y Senedd.

# Atodiad 1 Ffynonellau dethol

Mae'r ffynonellau cyhoeddedig a restrir yn yr atodiad hwn wedi cael rhywfaint o effaith ar ein gwaith. Fodd bynnag, nid ydym wedi ceisio, nac wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r awduron.

## Trefn Busnes


- Geddes, Marc, Dramas at Westminster: *Select committees and the quest for accountability*, Gwasg Prifysgol Manceinion, 2020
- Gerzo, Thalia a van der Walle, Nicolas, *The Politics of Legislative Expansion in Africa*, Comparative Political Studies, Cyfrol 55, Rhifyn 14, 2022
- Judge, David a Leston-Bandera, Christina (Golygydd), *Reimagining Parliament*, Gwasg Prifysgol Bryste, 2024
- Muir Jr, W.K., *Legislature: California's school for politics*, Gwasg Prifysgol Chicago, 1982
- Power, Greg, *Inside the Political Mind: the human side of politics and how it shapes development*, Hust, 2024
- Russell, Meg a Benton, Meghan, *Selective Influence: The policy impact of House of Commons Select Committees*, Coleg Prifysgol Llundain, 2011
- Stirbu, Diana, *Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau*, Prifysgol Fetropolitan Llundain a Senedd Cymru, 2021
- White, Hannah, *Select Committees Under Scrutiny*, Institute for Government, 2015


## Datrysiadau i rwystrau i gynrychiolaeth


- Adroddiad 2014 Prifysgol Bangor ar gyfer y Bwrdd Taliadau Annibynnol, *Evaluating the Barriers to Entering the Assembly.*
- Adroddiad *The Good Parliament* yr Athro Sarah Childs i Dŷ'r Cyffredin yn 2016.

- Gwaith yr Undeb Rhyngseneddol ar hyrwyddo seneddau cynhwysol a chynrychioliadol.
- Gwaith y Sefydliad Ewropeaidd dros Gydraddoldeb Rhywedd ar Seneddau sy'n Sensitif i Rywedd.
- Gwnaeth Panel Arbenigol y Senedd ar Ddiwygio Etholiadol argymhellion i gefnogi ac annog amrywiaeth o ran cynrychiolaeth yn ei adroddiad *Senedd sy'n gweithio i Gymru* yn 2017
- Gwnaeth Pwyllgor y Senedd ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd argymhellion ynghylch ethol Senedd fwy amrywiol yn ei adroddiad yn 2002, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf.*
- Gwnaeth Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd ar Ddiwygio'r Senedd argymhellion yn ymwneud â mesurau amrywiaeth yn ei adroddiad yn 2002, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*.
- Adroddiad Senedd y DU ar ei *Harchwiliad o Seneddau sy'n Sensitif i Rhywedd* yn 2018, ac ymateb
- Adroddiad Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Llundain ar gyfer Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn 2018, *Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
- Adroddiad Fforwm Tai'r Oireachtas ar Senedd Gynhwysol sy'n Ystyriol o Deuluoedd i'r Ceann Comhairle (Llefarydd y Dáil) yn 2021
- Adroddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar *Seneddau Effeithiol a Chynhwysol* (a oedd yn cynnwys ystyried y Senedd) yn 2022
- Adroddiad Senedd yr Alban *A Parliament for All: Report of the Parliament's Gender Sensitive Audit*.
- Bu adroddiadau Pwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd ar Filiau Diwygio'r Senedd (yn 2023 a 2024) yn ystyried materion sy'n berthnasol.
- Adroddiad Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth y DU 2021 dan y teitl *Barriers to elected office for disabled people*.

## Cymariaethau rhyngwladol

- Brandenburg Landtag (Yr Almaen)

- Bürgerschaft o Bremen (yr Almaen)
- Cynulliad Deddfwriaethol British Columbia (Canada)
- Senedd Castile Leon (Sbaen)
- Senedd Estonia
- Dail Iwerddon
- Senedd Latfia
- Senedd Moldofa
- Senedd Montenegro
- Cynulliad Deddfwriaethol New Brunswick (Canada)
- Cynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd (Awstralia)
- Senedd yr Alban (y DU)
- Cynulliad Cenedlaethol Slofenia
- Senedd Wallonia (Gwlad Belg)
- Cynulliad Deddfwriaethol Victoria (Awstralia)